Gweithgareddau Hyfforddi ar Gyfranogiad Disgyblion i Athrawon, Llywodraethwyr a Disgyblion

Training Activities in Pupil Participation for Teachers, Governors and Pupils

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

# Cael Pobl i Grwpiau a Thorri'r Iâ

# Getting People into Groups and Icebreakers

Cymru Ifanc
Young Wales

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

ISBN 978 0 7504 6230 3
© Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2011
WAG10-11208
F5341011

# Getting People into Groups

| | |
|---|---|
| Activity | Counting |
| Purpose | To form small groups of randomly assigned people. |
| Resources | None. |
| Preparation | None. |
| Timings | 1 minute. |
| Participants | The whole group. |
| Outline of Activity | This is designed to put participants into groups of four, but it can be adapted to create smaller or larger groups. Number all of the participants in the group as follows -<br>If you have 28 people, number them 1-7: all No.1's sit together, all No. 2's, all No. 3's and so on. |
| Follow-up | This way of grouping people randomly is the quickest and fairest and ensures everyone gets to know each other. |
| Adaptations if including children and young people | Instead of numbers, use names of animals or fruits or planets. |

# Cael Pobl i Grwpiau

| Gweithgaredd | Cyfrif |
|---|---|
| Pwrpas | Ffurfio grwpiau bychain o bobl wedi'u dewis ar hap. |
| Adnoddau | Dim. |
| Gwaith Paratoi | Dim. |
| Amser | 1 munud. |
| Cyfranogwyr | Y grŵp cyfan. |
| Amlinelliad o'r Gweithgaredd | Pwrpas y gweithgaredd yw rhoi'r cyfranogwyr mewn grwpiau o bedwar, ond gellir ei addasu i greu grwpiau llai neu fwy. Dylid rhifo'r holl gyfranogwyr yn y grŵp fel a ganlyn -<br><br>Os oes gennych 28 o bobl, dylid eu rhifo o 1 i 7: mae pob Rhif 1 yn eistedd gyda'i gilydd, a phob Rhif 2, pob Rhif 3 ac ati. |
| Dilyniant | Y dull yma o grwpio pobl ar hap yw'r ffordd gyflymaf a thecaf o sicrhau bod pawb yn dod i adnabod ei gilydd. |
| Addasiadau os yn cynnwys plant a phobl ifanc | Yn lle rhifau, defnyddio enwau anifeiliaid neu ffrwythau neu blanedau. |

# Getting People into Groups

| Activity | Lines |
|---|---|
| Purpose | To form small groups of randomly assigned people. Often better to use straight after lunch as it gets people moving. |
| Resources | None. |
| Preparation | None. |
| Timings | 5 minutes. |
| Participants | The whole group. |
| Outline of Activity | Ask the group to line up according to their date of birth - day and month - WITHOUT TALKING - Indicate one end of the room as January 1st and the other end as December 31st.<br>**Point of interest: statistically in any group of 30 there should be two people with the same birthday.** |
| Follow-up | Count the participants off into small groups along the line, according to how many people you want in each group (e.g. 4 - 5). |
| Adaptations if including children and young people | No adaptations necessary. |

# Cael Pobl i Grwpiau

| Gweithgaredd | Llinellau |
|---|---|
| Pwrpas | Ffurfio grwpiau bychain o bobl wedi'u dewis ar hap. Yn aml, mae'n syniad da defnyddio'r gweithgaredd hwn yn syth ar ôl cinio, gan ei fod yn gwneud i bobl symud. |
| Adnoddau | Dim. |
| Gwaith Paratoi | Dim. |
| Amser | 5 munud. |
| Cyfranogwyr | Y grŵp cyfan. |
| Amlinelliad o'r Gweithgaredd | Gofyn i'r grŵp ffurfio llinell yn ôl eu dyddiad geni - diwrnod a mis - HEB SIARAD - Dweud mai un pen yr ystafell yw Ionawr 1$^{af}$ ac mai'r pen arall yw Rhagfyr 31$^{ain}$.<br>**Pwynt diddorol: yn ystadegol, mewn unrhyw grŵp o 30 o bobl, dylid bod dau o bobl gyda'r un pen blwydd.** |
| Dilyniant | Cyfrif y cyfranogwyr i ffwrdd mewn grwpiau bychain ar hyd y llinell, yn dibynnu ar faint o bobl sydd angen ym mhob grŵp (e.e. 4 - 5). |
| Addasiadau os yn cynnwys plant a phobl ifanc | Dim angen unrhyw addasiadau. |

# Facilitating Group Work

## Activity — Jigsawing

**Purpose**

Jigsawing is a collaborative learning technique which enables participants to investigate specific aspects of a given topic. They then share their learning with others in mixed groups, so that all participants get an overview of the whole topic.

**Resources**

To conduct jigsawing, you will need to prepare instructions for 3 - 6 different tasks, so that each participant has instructions for their designated task. Participants work in small groups of 3-6 depending on how many tasks you want completed. Do not have any group larger than six.

**Preparation**

Arrange enough tables to accommodate participants with 3 - 6 chairs per table, depending on the number of tasks to be completed.

**Timings**

30-60 minutes depending on task.

**Participants**

The whole group working in small groups.

**Initial research**

Ask participants to sit at the tables, according to the number of tasks to be completed (i.e. 3 per table for 3 tasks).

Number off participants at each table, according to the number of tasks (e.g. 1,2,3). Distribute any 'extra' participants evenly around the tables. Assign a different task sheet to each number, and ask them to reflect on it individually. ***(See diagram)**

| | |
|---|---|
| JIGSAW | Now ask all participants of the same number to get together (e.g. all the 1s, all the 2s, all the 3s). Participants work in these small groups to discuss their joint task. Each person in the group must be prepared to feed the outcomes of their discussion back to their original group. |
| Feedback and Discussion | Now ask participants to return to their original mixed groups. Each group should have one representative from each of the different group tasks carried out (some groups may have two representatives, but there should be at least one).<br><br>Ask participants to take it in turns to report on the ideas generated in their task groups i.e. those who were in Group 1 report on their discussion in that group, those in Group 2 report on their discussions etc. Encourage participants to ask questions for clarification.<br><br>This process should enable participants to pool ideas so that they have an overview of the whole topic. |
| Trainer's Notes | The JIGSAW technique described above ensures that each participant pays special attention to the ideas generated in the task group, as they know they will have to report the group's findings to their original group. It is also a useful way of ensuring that participants get the opportunity to work with different people during training which increases the coherence of the group.<br><br>More information about the technique can be found at: http://www.jigsaw.org/steps.htm |

***(Visual Representation of the above technique):**

**Sample Process with 3 Tasks and a Group of 20 Participants:**

Initial research




Participants are numbered off and each number assigned a different task.

Participants are given a short time to look at their task individually.

---

JIGSAW




Participants convene in their number groups to discuss their task.

---

Feedback and Discussion




Participants return to their original groups, and representatives from the numbered groups report back on their discussions. Other participants ask questions to clarify their understanding.

# Hwyluso Gwaith Grŵp

| Gweithgaredd | Gwneud jig-so |
|---|---|
| Diben | Techneg ddysgu gydweithredol yw gwneud jig-so sydd yn galluogi cyfranogwyr i archwilio agweddau arbennig ar bwnc penodol. Yna byddant yn rhannu yr hyn a ddysgwyd gydag eraill mewn grwpiau cymysg, fel bod yr holl gyfranogwyr yn cael trosolwg ar y pwnc cyfan. |
| Adnoddau | Er mwyn cynnal y gweithgaredd gwneud jig-so, bydd angen i chi baratoi cyfarwyddiadau ar gyfer 3 - 6 o wahanol dasgau, fel y bydd gan bob cyfranogwr gyfarwyddiadau ar gyfer ei dasg / ei thasg benodol. Bydd cyfranogwyr yn gweithio mewn grwpiau bach o 3-6 yn dibynnu ar faint o dasgau rydych am eu cwblhau. Peidiwch â chael unrhyw grŵp sy'n fwy na chwech. |
| Gwaith paratoi | Trefnwch ddigon o fyrddau ar gyfer y cyfranogwyr gyda 3 - 6 cadair ar gyfer pob bwrdd, gan ddibynnu ar y nifer o dasgau i'w cwblhau. |
| Amser | 30-60 munud yn dibynnu ar y dasg. |
| Cyfranogwyr | Y grŵp cyfan yn gweithio mewn grwpiau bach. |
| Ymchwil gychwynnol | Gofynnwch i'r cyfranogwyr eistedd wrth y byrddau, yn ôl y nifer o dasgau sydd i'w cwblhau (e.e. 3 pherson i bob bwrdd ar gyfer 3 tasg). Rhifwch y cyfranogwyr wrth bob bwrdd, yn ôl y nifer o dasgau (e.e. 1,2,3). Dosbarthwch unrhyw gyfranogwyr 'ychwanegol' yn gyfartal rhwng y byrddau. Rhowch dasg wahanol i bob 'rhif', a gofyn iddynt fyfyrio arni yn unigol. ***(Gweler y diagram)** |

| | |
|---|---|
| JIG-SO | Nawr gofynnwch i'r cyfranogwyr sydd yn rhannu'r un rhif ddod at ei gilydd (e.e. yr holl rifau 1 gyda'i gilydd, yr holl rifau 2 gyda'i gilydd, ayb). Mae'r cyfranogwyr yn gweithio yn y grwpiau bach hyn i drafod eu tasg ar y cyd. Rhaid i bob person fod yn barod i adborthi deilliannau eu trafodaeth i'w grŵp gwreiddiol. |
| Adborth a Thrafodaeth | Gofynnwch i'r cyfranogwyr ddychwelyd i'w grwpiau cymysg gwreiddiol. Dylai fod gan bob grŵp o leiaf un cynrychiolydd o bob grŵp tasg (weithiau bydd'na ddau).<br><br>Gofynnwch i'r cyfranogwyr gymryd eu tro i adrodd ar y syniadau a gynhyrchwyd yn eu grwpiau tasg h.y. byddai y rheini oedd yng Ngrŵp 1 yn adrodd ar eu trafodaeth yn y grŵp hwnnw, y rheini oedd yng Ngrŵp 2 yn adrodd ar eu trafodaethau ac yn y blaen. Anogwch y cyfranogwyr i ofyn cwestiynau os ydyn nhw angen eglurhad.<br><br>Trwy wneud hyn dylai'r cyfranogwyr gydgyfrannu'r holl syniadau o bob grŵp er mwyn cael trosolwg o'r pwnc cyfan. |
| Nodiadau'r Hyfforddwr | Mae'r dechneg GWNEUD JIG-SO a ddisgrifir uchod yn sicrhau bod pob cyfranogwr yn rhoi sylw arbennig i'r syniadau a gafodd eu cynhyrchu yn y grŵp tasg, am eu bod yn gwybod y bydd rhaid iddynt adrodd canfyddiadau'r grŵp i'w grŵp gwreiddiol. Mae hefyd yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod cyfranogwyr yn cael y cyfle i weithio gyda phobl wahanol yn ystod hyfforddiant sy'n rhoi mwy o gydlyniaeth i'r grŵp.<br><br>Ceir mwy o wybodaeth am y dechneg hon yma:<br>http://www.jigsaw.org/steps.htm |

***(Portread Gweledol o'r dechneg uchod):**

| | | |
|---|---|---|
| Ymchwil gychwynnol | **Proses enghreifftiol gyda 3 Thasg a Grŵp o 20 Cyfranogwr:**<br>[1 2 / 3 1] [1 2 / 3 2] [1 2 / 3]<br>[1 2 / 3] [1 2 / 3] [1 2 / 3] | Rhoddir rhif i bob cyfranogwr, a thasg wahanol i bob rhif.<br>Rhoddir amser byr i gyfranogwyr edrych ar eu tasg yn unigol. |
| JIG-SO | [1s] [2s] [3s] | Cyfranogwyr yn dod at ei gilydd mewn grwpiau yn ôl eu rhif i drafod eu tasg. |
| Adborth a Thrafodaeth | [1 2 / 3 1] [1 2 / 3 2] [1 2 / 3]<br>[1 2 / 3] [1 2 / 3] [1 2 / 3] | Cyfranogwyr yn dychwelyd i'w grwpiau gwreiddiol, ac yn adrodd yn ôl o'r trafodaethau a gafwyd fesul rhif. Cyfranogwyr eraill yn gwrando a gofyn cwestiwynau. |

# Facilitating Group Work

## Activity — Stirring the Beans

**Purpose**

To ensure people share their ideas systematically.

**Resources**

A different task for each group.
Large sheets of paper and tape to attach to desks.
Large felt pens.

**Preparation**

Arrange enough tables to accommodate participants with four or five chairs per table. Cover the tables with large sheets of paper and tape them down. Have large felt pens on the tables.

**Timings**

45 minutes.

**Participants**

The whole group working in small groups.

**Outline of Activity**

Participants begin by working on one task in groups of four or five. This would be a good way to organise groupings for Activity 2f - 'The Role of Pupil Participation in School Effectiveness'.

**Stage 1**

Organise the group into groups of four as far as possible.

Each group should sit round a table on which has been taped a large sheet of paper. They will also need coloured pens. Each group will also have something different to read.

Each group discusses the reading and decides what are the most important issues arising out of the reading that schools or teachers need to think about.

Write down the key ideas on the paper on the desk.

Stage 2

This is the complicated bit, but worth the effort!

Ask every person in each group to number themselves 1-4 (or 5 depending on size of group).

Tell the 1's (and 5s) to stay where they are.

Tell number 2's they are to move on one table clockwise.

Tell number 3's they are to move on two tables clockwise.

Tell number 4's they are to move on three tables clockwise.

Ask them to move.

Give instructions as follows:

> You now form a new group who will stay together.
>
> Each person in the group will have a different role.
>
> The 1's (and 5s) should explain the notes their group made to the new people joining him/her.
>
> No. 2's,3's, 4's should listen, then ask questions and comment and add further ideas to the sheet.
>
> Allow about five minutes for this.

Stage 3

The new groups should now move together to the next table.

One member of the new group will have been involved in creating the notes made on the next table. That person will explain what has been written to the others who are required to listen, question and comment and add further ideas to the sheet.

Allow 5 minutes for this.

Stage 4

The groups should move on to the next table and repeat the process. Once all of the tables have been covered, participants should re-group at their original tables.

Stage 5

At their original tables, the groups scrutinise all of the comments that have been written on their sheets by the 'visiting' groups.

# Hwyluso Gwaith Grŵp

| Gweithgaredd | Troi'r Ffa |
|---|---|
| Pwrpas | Sicrhau bod pobl yn rhannu eu syniadau mewn ffordd systematig. |
| Adnoddau | Gwahanol dasg i bob grŵp.<br>Dalennau mawr o bapur a thâp i'w gludo wrth y desgiau.<br>Pinnau ffelt mawr. |
| Gwaith Paratoi | Trefnu digon o fyrddau i roi lle i'r cyfranogwyr, gyda phedair neu bump cadair wrth bob bwrdd. Gorchuddio'r byrddau â dalennau mawr o bapur ac yna'u gludo i'w lle gyda'r tâp. Gosod pinnau ffelt mawr ar y byrddau. |
| Amser | 45 munud. |
| Cyfranogwyr | Y grŵp cyfan yn gweithio mewn grwpiau bychain. |
| Amlinelliad o'r Gweithgaredd | Mae'r cyfranogwyr yn dechrau drwy weithio ar un dasg mewn grwpiau o bedwar neu bump. Byddai hon yn ffordd dda o drefnu grwpiau ar gyfer Gweithgaredd 2f - 'Rôl Cyfranogiad y Disgybl yn Effeithiolrwydd Ysgolion'. |
| Cam 1 | Trefnu'r grŵp mewn grwpiau o bedwar cyn belled ag y bo modd.<br><br>Dylai pob grŵp eistedd wrth fwrdd lle mae dalen mawr o bapur wedi'i gosod yn ei lle gyda thâp. Byddant angen pinnau ffelt lliw hefyd. Yn ogystal, bydd gan bob grŵp rywbeth gwahanol i'w ddarllen.<br><br>Mae pob grŵp yn trafod y darlleniad ac yn penderfynu pa faterion ynddo yw'r rhai pwysicaf i ysgolion neu athrawon gymryd i mewn i ystyriaeth.<br><br>Ysgrifennu'r syniadau allweddol ar y papur ar y ddesg. |

Cam 2

Dyma'r darn cymhleth, ond mae'n werth yr holl ymdrech!

Gofyn i bob unigolyn ym mhob grŵp ei rifo ei hun o 1 i 4 (neu 5, gan ddibynnu ar faint y grŵp).

Dweud wrth bob rhif 1 (a phob rhif 5) am aros lle maen nhw.

Dweud wrth bob rhif 2 am symud ymlaen un bwrdd, gyda'r cloc.

Dweud wrth bob rhif 3 am symud ymlaen dau fwrdd, gyda'r cloc.

Dweud wrth bob rhif 4 am symud ymlaen tri bwrdd, gyda'r cloc.

Gofyn iddynt symud.

Rhoi cyfarwyddiadau fel a ganlyn:

> Rydych bellach yn grŵp newydd a fydd yn aros gyda'i gilydd.
>
> Bydd gan bob unigolyn yn y grŵp rôl wahanol.
>
> Dylai pob rhif 1 (a 5) egluro'r nodiadau y mae ei grŵp wedi'u gwneud wrth y bobl newydd sydd wedi ymuno ag ef/hi.
>
> Dylai pob rhif 2, 3 a 4 wrando ac yna holi cwestiynau a chyflwyno sylwadau, gan ychwanegu rhagor o syniadau at y ddalen.
>
> Dylid caniatáu rhyw bum munud ar gyfer hyn.

Cam 3

Dylai'r grwpiau newydd symud gyda'i gilydd yn awr i'r bwrdd nesaf.

Bydd un aelod o'r grŵp newydd wedi ymwneud â chreu'r nodiadau sydd ar y bwrdd nesaf. Bydd yr unigolyn hwnnw'n egluro beth sydd wedi cael ei ysgrifennu wrth y lleill a bydd yn ofynnol iddynt hwy wrando, holi cwestiynau, cyflwyno sylwadau ac ychwanegu rhagor o syniadau at y ddalen.

Dylid caniatáu 5 munud ar gyfer hyn.

Cam 4

Dylai'r grwpiau symud ymlaen i'r bwrdd nesaf ac ailadrodd y broses. Unwaith maent wedi bod wrth y byrddau i gyd, dylai'r cyfranogwyr ailgrwpio wrth eu byrddau gwreiddiol.

Cam 5

Wrth eu byrddau gwreiddiol, dylai'r grwpiau edrych yn fanwl ar yr holl syniadau sydd wedi cael eu hysgrifennu ar eu dalennau gan y grwpiau 'ymweld'.

# Icebreaker

| | |
|---|---|
| **Activity** | **Where the wind blows** |
| Purpose | To mix up the group so they are sitting next to new people.<br>To find out what people know already. |
| Resources | None. |
| Preparation | None. |
| Timings | 2-5 minutes. |
| Participants | The whole group. |
| Outline of Activity | The group should be sitting in a circle of chairs. |

Use as many of the following as you want - and introduce your own.

Ask the participants to 'stand up and change places if…'

- You're wearing jewellery
- You're wearing something black
- You came here by car today
- You've been on holiday this year
- If you had breakfast this morning
- If you enjoyed your lunch

You can take one chair out of the circle so there is always someone left standing who calls out the next category.

| | |
|---|---|
| Follow-up | You can do the same activity to re-cap activities completed during the day or to introduce some of the key concepts of pupil participation.<br><br>Stand up and change places if…<br>• you have voted for something recently<br>• you know what Funky Dragon is<br>• you have heard of the Children and Young people's Partnership<br>• you know what a School Council is |
| Adaptations if including children and young people | Start by labelling people as fruits - orange, apple, pear, banana. Ask all oranges and bananas to change places; apples and pears; orange, apples and pears - fruit salad (all change). This could also be used to find out if people have been involved in participatory activities in their school.<br><br>Stand up and change places...<br>• if you have voted for your School Council representative<br>• if you have taken part in a school committee of any kind<br>• if there is an eco-committee in your school<br><br>And more as appropriate to your audience. |

# Gweithgaredd Torri'r Iâ

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Lle Chwytha'r Gwynt** |
| Pwrpas | Cymysgu'r grŵp fel bod yr aelodau'n eistedd wrth ochr pobl newydd.<br>Er mwyn cael gwybod beth mae pobl yn ei wybod eisoes |
| Adnoddau | Dim. |
| Gwaith Paratoi | Dim. |
| Amser | 2-5 munud. |
| Cyfranogwyr | Y grŵp cyfan. |
| Amlinelliad o'r Gweithgaredd | Dylai'r grŵp fod yn eistedd ar gylch o gadeiriau.<br>Defnyddiwch faint bynnag fynnwch chi o'r canlynol - a chyflwynwch eich rhai chi eich hun.<br>Gofynnwch i'r cyfranogwyr 'sefyll ar eich traed a newid lle os ydych…'<br>• Yn gwisgo gemwaith<br>• Yn gwisgo rhywbeth du<br>• Wedi dod yma heddiw mewn car<br>• Wedi bod ar wyliau eleni<br>• Wedi cael brecwast y bore yma<br>• Wedi mwynhau eich cinio<br>Gallwch dynnu un gadair allan o'r cylch fel bod gennych bob amser un sy'n dal i sefyll ac sy'n galw'r categori nesaf. |

| | |
|---|---|
| Dilyniant | Gallwch ddefnyddio'r un gweithgaredd i fynd yn ôl dros y gweithgareddau a wnaed yn ystod y dydd neu i gyflwyno rhai o'r cysyniadau allweddol ar gyfer cyfranogiad disgyblion.<br><br>Sefwch ar eich traed os ydych…<br>• wedi pleidleisio dros rywbeth yn ddiweddar<br>• yn gwybod beth yw Draig Ffynci<br>• wedi clywed am y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc<br>• yn gwybod beth yw Cyngor Ysgol |
| Addasiadau os yn cynnwys plant a phobl ifanc | Dechrau drwy labelu pobl fel ffrwythau - orennau, afalau, gellyg, bananas. Gofyn i'r orennau a'r bananas i gyd newid lle; afalau a gellyg; orennau, afalau a gellyg - salad ffrwythau (pawb i newid). Gellid defnyddio'r gweithgaredd yma hefyd i gael gwybod a yw pobl wedi ymwneud â gweithgareddau cyfranogi yn eu hysgol.<br><br>Sefwch ar eich traed os…<br>• ydych wedi pleidleisio dros eich cynrychiolydd ar gyfer Cyngor yr Ysgol<br>• ydych wedi cymryd rhan mewn pwyllgor o unrhyw fath yn yr ysgol<br>• oes eco-bwyllgor yn eich ysgol<br><br>A rhagor, fel sy'n briodol i'ch cynulleidfa. |

# Icebreaker

| | |
|---|---|
| **Activity** | **Stand up/Sit Down** |
| Purpose | To get the group ready to work co-operatively and collaboratively and to begin to get to know each other's names. |
| Resources | None. |
| Preparation | None. |
| Timings | 5 minutes. |
| Participants | The whole group. |
| Outline of Activity | The group should be sitting in a circle of chairs.<br>Ask all of the participants to stand up. Then ask them to sit down one at a time and say their name at the same time. If two people sit down at once, everyone has to stand up again. Continue until they manage to complete the task so everyone has sat down one at a time. |
| Follow-up | This is a useful activity to do as an introductory ice breaker - it makes people laugh and helps to 'break the ice'. |
| Adaptations if including children and young people | If you are using it with a group who already know each other's names ask them to count as they sit - first person to sit says '1' and the second '2' and so on. Give them a target of beating their last attempt. |

# Gweithgaredd Torri'r Iâ

| Gweithgaredd | Sefyll i fyny/Eistedd i lawr |
|---|---|
| Pwrpas | Cael y grŵp yn barod i gydweithredu a chydweithio a dechrau dod i wybod beth yw enw'r naill a'r llall. |
| Adnoddau | Dim. |
| Gwaith Paratoi | Dim. |
| Amser | 5 munud. |
| Cyfranogwyr | Y grŵp cyfan. |
| Amlinelliad o'r Gweithgaredd | Dylai'r grŵp eistedd ar gylch o gadeiriau.<br><br>Gofyn i'r holl gyfranogwyr sefyll i fyny. Yna gofyn iddynt eistedd i lawr un ar y tro a dweud eu henw ar yr un pryd. Os bydd dau unigolyn yn eistedd i lawr yr un pryd, mae'n rhaid i bawb sefyll i fyny eto. Dal ati nes eu bod yn llwyddo i gwblhau'r dasg, fel bod pawb wedi eistedd i lawr un ar y tro. |
| Dilyniant | Mae hwn yn weithgaredd defnyddiol i'w wneud fel sesiwn torri'r iâ cyflwyniadol - mae'n gwneud i bobl chwerthin ac yn helpu i 'dorri'r iâ'. |
| Addasiadau os yn cynnwys plant a phobl ifanc | Os ydych yn defnyddio'r gweithgaredd gyda grŵp sydd eisoes yn adnabod ei gilydd, ac yn gwybod enw'r naill a'r llall, gofynnwch iddynt gyfrif wrth iddynt eistedd - yr unigolyn cyntaf i eistedd yn dweud '1' a'r ail yn dweud '2' ac ati. Rhowch darged iddynt o ragori ar eu hymgais ddiwethaf. |